# HYSBYSIAD CYHOEDDUS

## CYNGOR SIR CEREDIGION
## DEDDF CYMALAU HEDDLU'R DREF 1847
## (ADRAN 21)

## PARÊD GŴYL DEWI, ABERTEIFI 2025

HYSBYSIR drwy hyn fod Cyngor Sir Ceredigion wedi gwneud y Gorchymyn canlynol o dan Adran 21 o Ddeddf Cymalau Heddlu'r Dref 1847 er mwyn Atal Rhwystrau ayb.

Rhwng 09:30 a 10:00 ac yna rhwng 10:30 ac 11:00 ddydd Gwener 21 Chwefror, oherwydd y digwyddiad uchod, bydd y rhannau o'r ffordd a adwaenir fel Pendre, y Stryd Fawr, Stryd William a Stryd y Priordy, Aberteifi yn sir Ceredigion dan eu sang a gall fod rhwystrau arnynt.

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn unol â'r pwerau a roddir gan Adran 21, Deddf Cymalau Heddlu'r Dref 1847 DRWY HYN YN GORCHYMYN AC YN CYFARWYDDO at bwrpas atal rhwystrau ar y cyfryw ffordd ar y cyfryw ddiwrnod y bydd yn rhaid cadw at y rheoliadau canlynol:-

1. Yn ddibynnol ar y darpariaethau hynny a gynhwysir yn erthyglau 3 a 4, bydd y rhannau hynny o'r ffordd a adwaenir fel Pendre, y Stryd Fawr, Stryd William a Stryd y Priordy, Aberteifi yn Sir Ceredigion ar gau i bob cerbyd gan gynnwys beiciau pedal rhwng 09:30 a 10:00 a rhwng 10:30 ac 11:00 ddydd Gwener 21 Chwefror.
2. Y ffordd arall ar gyfer traffig sy'n teithio i gyfeiriad y gogledd o bwynt i'r dwyrain o'r darn ffordd a gaewyd yn Stryd William yw teithio ar hyd Feidrfair i'r gyffordd â Stryd y Priordy. Trowch i'r dde i Stryd y Priordy gan deithio i'r gyffordd â Stryd Morgan. Trowch i'r chwith i Stryd Morgan gan barhau i Lôn Carrier a'r Strand ac i'r gyffordd â Stryd y Bont. Trowch i'r dde i Stryd y Bont gan deithio i'r gyffordd â Stryd y Cei. Trowch i'r chwith i Stryd y Cei gan deithio i'r gyffordd â'r Mwldan Isaf. Trowch i'r dde i'r Mwldan Isaf gan deithio drwy'r Mwldan Ganol i Res y Frenhines. Teithiwch ar hyd Rhes y Frenhines i'r gyffordd â Sgwâr Greenfield. Trowch i'r chwith i Sgwâr Greenfield gan deithio i'r gyffordd â Rhodfa'r Felin/Heol y Baddondy. Trowch i'r dde i Heol y Baddondy hyd y pwynt i'r gogledd o'r darn ffordd a gaewyd. Cedwir mynediad i gerddwyr ar bob adeg.
3. Ni fydd darpariaethau erthygl 1 ond yn gymwys ar yr adegau ac i'r graddau y bydd y cyfyngiadau y cyfeirir atynt yma wedi'u dangos gan arwyddion traffig, stiwardiaid dynodedig neu swyddog heddlu mewn lifrai.
4. Ni fydd unrhyw beth yn erthygl 1 o'r gorchymyn hwn yn gymwys i unrhyw gerbyd a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys, cerbydau a ddefnyddir yng nghyswllt y digwyddiadau sydd yn rheswm i'r gorchymyn hwn, nac unrhyw beth a wneir gyda chaniatâd neu o dan gyfarwyddyd swyddog heddlu.

Y gosb am fynd yn groes i'r Rheoliadau hyn yw dirwy ddim mwy na Mil o Bunnau.

**Dyddiad:** 10 Chwefror 2025

Elin Prysor: Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Penmorfa, Aberaeron